# Rheolwr Gyfarwyddwr

## Proffil y swydd

CARTREFI CONWY
creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
creating communities to be proud of

### PWRPAS Y SWYDD

Bydd deiliad y swydd yn:

- Gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Bwrdd i lywio cyfeiriad strategol y busnes trwy gyd-gynhyrchu gyda phob budd-ddeiliaid; bwrw ymlaen gyda'r cynllun strategol a'i adolygu, rheoli adnoddau'n effeithiol i gyflwyno cynlluniau a darparu sicrwydd i'r Bwrdd
- Arwain, datblygu a thyfu'r tîm darparu, y gadwyn gyflenwi, sylfaen cwsmeriaid a pherthnasau strategol o fewn y rhanbarth
- Galluogi datblygu a strategaethau llwyddiannus sydd yn ein helpu i greu cymunedau i fod yn falch ohonynt; yn cynnwys adfywio cymunedol, datblygu cymdogaeth, rheoli asedau'n weithgar, diogelwch tenantiaid, cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol; darparu arweinyddiaeth strategol sydd yn canolbwyntio ar gwsmeriaid i Gartrefi Conwy a galluogi cydweithwyr i gyflwyno perfformiadau uchel ar draws y busnes
- Cyfrannu at ddatblygu strategaethau risg a diwylliant o ymwybyddiaeth risg ar draws Cartrefi Conwy a sicrhau cydymffurfedd yn erbyn safonau cydymffurfio y rheoleiddiwr

### HYD A LLED Y SWYDD

- Cyfanswm trosiant y sefydliad £25m
- 4000 o gartrefi ar draws deiliadaethau cymdeithasol, canolradd a rhentu i berchnogi
- Cyfrifoldeb dros reoli pobl, 147 yn anuniongyrchol, a chyfanswm o 175 o weithwyr yn y busnes cyfan
- Bydd yn rhaid teithio rhywfaint yn rhanbarthol ac yn genedlaethol

### CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL

| Yn atebol i'r: | Yn rheolwr atebol dros: |
|---|---|
| Prif Weithredwr Grŵp<br>**Tîm:** Y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol | Pennaeth Cymdogaethau, Pennaeth Datblygu, Rheolwr Adfywio Cymunedol, Rheolwr Adfywio Cymunedol |
| **Allanol:** | **Mewnol:** |
| Arweinwyr gwleidyddol yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Cymheiriaid yn y Sector Tai, Cartrefi Cymunedol Cymru, Y Sefydliad Tai Siartredig, swyddogion Undebau Llafur | Byrddau Cartrefi Conwy a phwyllgorau aelodau eraill o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, cydweithwyr yn y tîm ehangach a'u cynrychiolwyr |

disability confident EMPLOYER

THE SUNDAY TIMES 100 BEST NOT-FOR-PROFIT ORGANISATIONS TO WORK FOR 2020

# FFOCWS A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

## Arwain y busnes

- Gyrru a goruchwylio cynlluniau ac adnoddau Cartrefi Conwy mewn perthynas â: darpariaeth bresennol gwasanaethau landlordiaid ac yn y dyfodol, iechyd a diogelwch, gwerth cymdeithasol, rheoli asedau, datblygu, cydymffurfio a chyflwyno'r cynllun busnes, darparu sicrwydd i bwyllgorau perthnasol a'r Bwrdd
- Datblygu rhwydweithiau effeithiol yn lleol a ffurfio cysylltiadau strategol hirdymor â phartneriaid mewn ffordd sy'n gwella perfformiad ac yn ychwanegu gwerth at y busnes

## Atebolrwydd a llywodraethu

- Gweithio gyda'r Prif Swyddog Gweithredol ac aelodau o'r tîm Gweithredol er mwyn sicrhau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol o ran y cynlluniau busnes
- Darparu gwybodaeth briodol ac amserol, gan alluogi trafodaeth agored a thryloyw rhwng swyddogion gweithredol ac anweithredol, gan osod safonau uchel o ran uniondeb
- Gweithio â'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol wrth yrru cynlluniau busnes yn eu blaenau a phennu amcanion strategol
- Sicrhau y caiff polisïau a chynlluniau priodol eu llunio a'u lledaenu gydol y busnes a'u bod yn gydnaws ag ymddygiad a gwerthoedd cytûn
- Cydweithio â'r tîm Gweithredol i sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n briodol a'i liniaru

## Arwain y profiad i gwsmeriaid

- Arwain diwylliant sy'n rhoi pwyslais cryf ar berfformiad ac ymrwymo i ragoriaeth, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau amrywiol, o ansawdd ac sy'n werth am arian sy'n bodloni holl anghenion y cwsmeriaid.
- Cefnogi awyrgylch lle mae barn y cwsmeriaid yn ganolog i ddatblygu'r gwasanaeth, a bod gwasanaeth i gwsmeriaid mewnol yn rhan annatod o'r diwylliant
- Adnabod cyfleoedd i fod yn arloesol a gwella gwasanaethau a chyfathrebu, yn enwedig trwy dechnoleg newydd
- Cyflwyno newidiadau yn y dirwedd tai fforddiadwy i sicrhau fod pawb yn deall yr effeithiau posib, yn manteisio ar gyfleoedd ac yn eu rheoli'n dda
- Arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau sydd yn amrywio ac yn galluogi ymrwymo a dylanwadu ar gwsmeriaid Cartrefi Conwy
- Gwrando ar farn cwsmeriaid Cartrefi Conwy, a rhoi cyngor i'r tîm Gweithredol ehangach a'r Bwrdd am gyfleoedd i wella profiad y cwsmeriaid

## Arwain pobl

- Arwain a chefnogi prosesau rheoli newid sydd yn cyflwyno uchelgais twf y Bwrdd a chreu'r sgiliau, profiad a gallu i greu dyfodol cynaliadwy
- Arwain tîm rheoli'r tîm rheoli, ei gymell a'i ddatblygu fel bod ei berfformiad yn gyson o safon uchel, ei fod yn gwireddu ei botensial ac yn darparu gwasanaeth o ansawdd da i Gartrefi Conwy, drwy ddarparu cyngor a chyfarwyddyd i rymuso rheolwyr a meithrin diwylliant cryf o reoli perfformiad
- Arwain drwy esiampl i hyrwyddo gwerthoedd y Grŵp a sefydlu diwylliant o berfformiad cryf, gwerth gorau, cydweithio, dysgu parhaus a chreadigrwydd, er mwyn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid a sicrhau fod yno weithwyr hyblyg sy'n medru datrys problemau gydol y busnes
- Cyfrannu at reoli newid, integreiddio a gwella yn effeithiol
- Cefnogi diwylliant sy'n gwerthfawrogi a chlodfori amrywiaeth o ran proffil a syniadau
- Cefnogi diwylliant cadarnhaol o les o fewn y gweithlu i sicrhau fod gan Cartrefi Conwy y gallu i gyflwyno ei amcanion strategol

**Ni all proffil swydd arwain ar raddfa fel hon ymdrin â phob mater a all godi, ac mae disgwyl i ddeiliad y swydd fod yn ddigon hyblyg i gyflawni dyletswyddau eraill fel y bo'r angen er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol o ran y swydd a'r busnes yn gyffredinol.**

disability confident EMPLOYER

THE SUNDAY TIMES 100 BEST NOT-FOR-PROFIT ORGANISATIONS TO WORK FOR 2020

# Manylion am yr unigolyn

CARTREFI CONWY
creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
creating communities to be proud of

## CYMWYSTERAU

- Aelod o’r Sefydliad Tai Siartredig neu gymhwyster/profiad cyfwerth
- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn maes sy’n gysylltiedig â thai/rheoli strategol
- IOSH cyfarwyddo’n Ddiogel neu gymhwyster Iechyd a Diogelwch cyfwerth (dymunol)

## PROFIAD

- Profiad sylweddol mewn uwch swydd berthnasol ym maes tai cymdeithasol
- Profiad o gyfranogiad sylweddol yn arwain sefydliad maint canolig gan gynnwys cyfrannu at y lleoliad a chyflwyno gweledigaeth strategol
- Profiad o arwain a datblygu timau o fewn busnes sy’n canolbwyntio ar y cwsmer
- Profiad o weithio’n effeithiol â Byrddau neu Bwyllgorau
- Profiad o gydweithio ar lefel uwch ar draws sefydliad maint canolig/mawr ar sawl safle

## GWYBODAETH

- Tystiolaeth o ddoethineb masnachol mewn lle gwaith
- Dealltwriaeth fanwl o reoleiddio, polisi, deddfwriaeth tai a darparu grant i wasanaethau tai cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig
- Deall deddfwriaeth iechyd a diogelwch a gofynion cydymffurfio yn y sector tai cymdeithasol
- Y cyd-destun gwleidyddol a chyfreithiol y mae Cartrefi Conwy yn gweithredu ynddo

## SGILIAU CRAIDD

- Gwybodaeth a phrofiad o ddefnyddio TG fel teclynnau rheoli data a phrofiad cyffredinol ar gyfer cyfathrebu (e.e. Skype for Busnes, Microsoft 365, ac ati)
- Doethineb ariannol cryf

## RHINWEDDAU PERSONOL

- Arweinydd gwirioneddol, gydag ymrwymiad i ansawdd, gwasanaethau i gwsmeriaid, arfer orau a gwerth gorau ymhob agwedd ar weithrediad y sefydliad
- Egni sylweddol a'r gallu i gyflawni canlyniadau, gweithio dan bwysau a chyflawni o fewn terfynau amser llym
- Medru arwain timau a gweithio’n dda fel aelod o dîm
- Yn gydnerth ac yn gadarn gydag agwedd gadarnhaol
- Sgiliau gwych o ran cyfathrebu a dylanwadu ar bobl
- Gwerthoedd cymdeithasol cryf
- Llysgennad ar gyfer Cartrefi Conwy, cwsmeriaid a chynrychioli’r rhanbarth mewn modd cadarnhaol

disability confident EMPLOYER

THE SUNDAY TIMES 100 BEST NOT-FOR-PROFIT ORGANISATIONS TO WORK FOR 2020